



Annwyl Riant/Warchodwr,

Pori Drwy Stori - Rhaglen Meithrin:

Mae Pori Drwy Stori yn gynllun dwyieithog sydd yn ysbrydoli cariad at lyfrau, storïau a rhigymau ac yn cynorthwyo plant i ddatblygu sgiliau siarad, gwranddo a rhifedd. Mae wedi'i ddylunio i gefnogi'r cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol ac annog rhieni/ gofalwyr i chwarae rôl weithredol yn y ffordd mae eu plant yn dysgu.

Bwriad y cynllun yw i wella canlyniadau addysgol i blant yn y maes dysgu Llafaredd. Mae'r cynllun yn darparu adnoddau i'w defnyddio yn yr ysgol ac adref, gan annog y rhieni / gwarchodwyr i fod yn rhan o addysg y plant. I grynhoi, bwriad y cynllun yw:

- Gwellu canlyniadau i blant yn gysylltiedig â llafaredd;
- Cynyddu'r cyswllt sydd gan rieni/gofalwyr â'r ffordd mae plentyn yn dysgu.

Mae dwy brif elfen i'r cynllun, 'Mae'n amser rhigwm' a 'Sôn am lyfr'. Yr elfen gyntaf yw 'Mae'n amser rhigwm'. O dan amodau gwahanol, byddai'r adnoddau yn mynd adref ac yn dod yn ôl yn wythnosol. Yn anffodus, o dan yr amodau cyfredol, nid yw hynny'n bosib ac felly mae'r holl adnoddau yn y pecyn amgaeedig.

Er gwaethaf hynny, byddwn yn dysgu un hwiangerdd yn wythnosol felly, os yn bosib, cadwch at y drefn wythnosol (1-5) ar gyfer yr hwiangerddi. Byddaf yn danfon 'Schoop' yn wythnosol i'ch hysbysu am beth yw'r hwiangerdd ar gyfer yr wythnos ganlynol. Cofiwch i uwch lwytho unrhyw luniau ar Seesaw neu Twitter (@ygcwmbran). Edrychaf ymlaen yn fawr iawn at eich gweld chi'n canu ac yn defnyddio'r adnoddau.

Cyfeiriad gwefan Booktrust yw booktrust.org.uk/poridrwystori-nursery
Mae'r holl adnoddau ar gael fan hyn.

Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau'r adnoddau a diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

Sioned Emery